## Dysgu'n Cyflawni

## Cynllun corfforaethol a gweithredol 2026-27

## Cyflwyniad

Sefydlwyd Dysgu ar 1 Medi 2025 i rymuso addysgwyr. Mae sefydlu'r corff yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru i ddarparu dull 'Unwaith dros Gymru' tuag at Ddysgu Proffesiynol yn y sector addysg, gyda chynnig sy'n gydlynus, o ansawdd cyson ac yn hygyrch i bawb.

Chwe mis ers ein sefydlu, mae Dysgu eisoes yn cyflawni. Mae ein tîm o 16 o staff wedi cynnal dros 300 o sgyrsiau adeiladol, wedi derbyn dros 550 o ymatebion gan ymarferwyr (yn amrywio o gynorthwywyr addysgu i benaethiaid gweithredol) i'n ciparolwg mewn cwta tair wythnos ac wedi peilota cynigion dysgu proffesiynol newydd i dros 400 o gyfranogwyr. Mae'r gwaith hwn wedi llywio'r dasg o lunio'n gweledigaeth strategol gyntaf ac mae'r cynllun gweithredol hwn yn disgrifio'r gwaith y bydd ein staff yn ei wneud yn ystod 2026/27, mewn ymateb i'n llythyr cylch gwaith a'n llythyr ariannu.

Bwriedir i'r cynllun corfforaethol a gweithredol hwn weithredu fel dogfen fyw. Bydd yn parhau i fod yn hyblyg, gan ganiatáu am ddiweddariadau ac addasiadau mewn ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a mewnwelediadau sy'n esblygu.

## Ein strwythur cyfreithiol

Mae Dysgu yn gwmni cyfyngedig trwy warant, sy'n eiddo llwyr i Weinidogion Cymru. Corff hyd braich ydyn ni sy'n destun goruchwyliaeth nawdd safonol gan Lywodraeth Cymru. Gweinidogion Cymru yw'r unig aelod-warantwr, ac mae'r Cwmni yn eiddo llwyr i Weinidogion Cymru. Sefydlwyd y Cwmni o dan bwerau Gweinidogion Cymru a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ac adran 10 o Ddeddf Addysg 1996. Fel corff cyhoeddus, mae Dysgu yn gweithredu fel asiant cyflenwi ar gyfer Gweinidogion Cymru, a'n rôl ni yw cyflawni ein cyfrifoldebau yng nghyd-destun nodau strategol Llywodraeth Cymru.

Prif bwrpasau'r Cwmni fel y'u nodir yn ein Herthyglau Cymdeithasu yw:

- cefnogi gweithredu gweledigaeth a blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer gwella addysg yng Nghymru;

- gweithio gyda'r system a phartneriaid i ddarparu ystod gydlynus o gyfleoedd dysgu proffesiynol yng Nghymru i gynorthwywyr addysgu ac athrawon i ddatblygu gweithwyr addysg proffesiynol myfyriol, ymholgar a chydweithredol ymhellach;
- gweithio gyda'r system a phartneriaid i ddarparu ystod gydlynus o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar gynyddu arweinyddiaeth gydweithredol ar draws y system gyfan drwy ddatblygu galluoedd proffesiynol arweinwyr sydd eisoes yn y system a phobl sy'n dyheu i fod yn arweinwyr ac ymgynghorwyr gwella ysgolion ar draws y system addysg;
- mwyafu mynediad i holl ymarferwyr ysgol Cymru, gan gynnwys athrawon cyflenwi, at wasanaethau dysgu proffesiynol gan sicrhau mynediad cydradd yn y Gymraeg a'r Saesneg; a
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Medr, Estyn, Athrofa, Adnodd a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cael ei arwain gan ymchwil, yn canolbwyntio ar ymarfer ac yn ymatebol i anghenion ymarferwyr ysgol, arweinwyr ac ymgynghorwyr gwella ac yn bodloni'r blaenoriaethau cenedlaethol a nodwyd.

Darperir goruchwyliaeth llywodraethu corfforaethol gyffredinol gan y Cadeirydd annibynnol a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr Anweithredol a benodir gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Penodir Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a deddfwriaeth gysylltiedig ac Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni.

## Ein staffio

Fel sefydliad dysgu ein hunain, rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod gan Dysgu adnoddau cyflawn a bod ganddo dîm o staff medrus a chefnogol sy'n cael eu gwerthfawrogi. Rydyn ni am osod esiampl yn ein harferion cyflogaeth a chefnogi ein holl staff i fod yn ddewr ac yn uchelgeisiol, a hynny gyda chefnogaeth ymarferwyr o fewn ysgolion ac ar hyd a lled Cymru.

Caiff ein tîm staff ei arwain gan ein Prif Weithredwr, Dr Gwenllian Lansdown Davies.

## Ein Gweledigaeth

Gweledigaeth **Dysgu** yw y gall pob addysgwr yng Nghymru gael mynediad at ddysgu proffesiynol a chymorth arweinyddiaeth safonol sy'n tanio'u dychymyg ac yn cyfrannu at eu twf proffesiynol a phersonol, gan eu cefnogi i roi o'u gorau. Mae **Dysgu** am feithrin atebolrwydd ar y cyd, dysgu trwy gydweithio a hunanwerthuso pwrpasol ar draws y sector trwy ddysgu proffesiynol rhagorol.

Gweithio gyda'r sector ac o fewn y sector bob cam o'r ffordd i helpu i greu'r amodau i sicrhau gwell deilliannau i ddysgwyr.

## Ein Cenhadaeth

**Dysgu** sy'n arwain ac yn cydlynu'r arlwy cenedlaethol o ddysgu proffesiynol a chymorth arweinyddiaeth, gan chwarae rôl ganolog yn y gwaith o wireddu Cynllun Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweithlu Addysg yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Cymraeg 2050.

Trwy gefnogi dull 'Unwaith dros Gymru' wrth ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol – llythrennedd, rhifedd, llesiant, dysgu ac addysgu a chymhwysedd digidol – bydd **Dysgu** "*yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella ysgolion a gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru*."[1]

Byddwn yn cefnogi'r dysgwyr trwy rymuso'r addysgwyr.

[1] https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-ffurfiannol-y-cwricwlwm-i-gymru-adroddiad-synthesis-cam-1-ymateb-y-llywodraeth-html

## Ein Gwerthoedd

**Rydym yn ymatebol:** Rydym yn ystyried y sector, yn dysgu wrtho ac ymateb iddo gan gnoi cil a gweithredu ar yr hyn mae ysgolion a lleoliadau addysgiadol yn ei ddweud wrthym ni.

**Rydym yn gynhwysol:** Rydym yn parchu ein gilydd ac yn hyrwyddo dysgu proffesiynol sy'n cydnabod anghenion amrywiol. Mae pawb yn dysgu’n wahanol.

**Rydym yn gydweithredol:** Byddwn yn cydweithio â phartneriaid am ein bod yn rhoi pwys mawr ar arbenigedd eraill ac yn croesawu tystiolaeth leol sy'n hybu’r arlwy yn genedlaethol.

**Rydym yn arloesol:** Gan gydnabod arfer rhagorol sydd eisoes ar waith, rydym hefyd yn croesawu syniadau newydd a ffyrdd blaengar o ddarparu dysgu proffesiynol. Mae croeso hefyd i dechnoleg sy'n dod i'r amlwg sy'n cynnig cyfle i arloesi a hybu cyfleoedd i addysgwyr, tra'n gwerthuso’i effaith ar ein gwaith mewn modd gofalus a thrwyadl.

## Ein gwaith i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwrpas cyffredin cyfreithiol rhwymol – y saith nod llesiant. Mae'n manylu ar y ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodol weithio a chydweithio i wella llesiant Cymru. Rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw cefnogi cyrff cyhoeddus i weithio tuag at gyflawni'r saith nod llesiant.

Dyma'r saith nod i ddisgrifio dyfodol Cymru y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio tuag atynt.

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy’n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Rydyn ni wedi alinio sicrwydd ansawdd Dysgu – yr egwyddorion sy'n sail i'n holl waith – â'r pum ffordd o weithio, sy'n disgrifio sut y gall cyrff cyhoeddus symud y nodau hyn yn eu blaen. Trwy wneud hynny, gallwn fod yn sicr y bydd ein holl waith yn chwarae rhan wrth gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol hyn:

| Ein hegwyddor sicrhau ansawdd yn Dysgu | Ffyrdd o weithio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
|---|---|
| **Cynnig sy’n gyson, yn gydlynus ac yn hygyrch**<br>Bydd ein cynnig yn cael ei gyllido’n llawn ac yn rhad ac am ddim. Bydd yn gynnig cenedlaethol a gaiff ei wireddu ar amrywiol amseroedd a thrwy amrywiaeth o fodelau a dulliau - wyneb yn wyneb, ar-lein ac yn anghydamserol – gydag ymyraethau sy’n ehangu gorwelion. | **Integreiddio a meddwl hirdymor**<br>Mae integreiddio yn gofyn am alinio camau gweithredu er mwyn mwyafu’r effaith ar draws nodau a gwasanaethau, gan sicrhau cydlyniaeth; mae meddwl hirdymor yn pwysleisio creu systemau cynaliadwy, dibynadwy. |
| **Dysgu parhaus trwy ymgysylltu, sgwrsio a phrofi**<br>Byddwn yn cydweithio ag amrywiaeth o arbenigwyr a phartneriaid i ehangu ein gwybodaeth a gwreiddio meddylfryd hirdymor yn ein cynllunio. Byddwn yn | **Cynnwys ac atal**<br>Mae cynnwys yn gofyn am ymgysylltu â phobl wrth saernïo gwelliannau; mae atal yn canolbwyntio ar ddysgu ac addasu'n gynnar i osgoi materion rhag codi yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| parhau i siarad ag addysgwyr, gan gynnwys y sector yn y broses o greu, darparu ac adolygu ein gwaith. | |
| **Ymchwil a gwerthuso**<br>Tystiolaeth fydd wrth wraidd pob dim a wnawn. Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau ymchwil proffesiynol a Sefydliadau Addysg Uwch i gasglu gwybodaeth a data. Byddwn yn dryloyw ac yn cydweithio gan rannu'n canfyddiadau ag eraill, gan gynnwys partneriaid byd-eang. | **Hirdymor ac atal**<br>Mae atal yn cynnwys deall achosion sylfaenol a gweithredu'n gynnar; mae meddwl hirdymor yn dibynnu ar dystiolaeth i lywio penderfyniadau cynaliadwy. |
| **Anelu at ragoriaeth**<br>Wrth i ni ddatblygu ein fframwaith sicrhau ansawdd, byddwn yn gosod disgwyliadau clir ac yn anelu at ragoriaeth. Bydd ein pwyslais ar arlwy rhagorol a chomisiynu'r hyn sy'n bwrpasol, yn ddefnyddiol ac yn gynhwysol. | **Tymor hir ac integreiddio**<br>Mae rhagoriaeth yn alinio â gwella ansawdd yn yr hirdymor ac integreiddio arfer gorau i fwyafu'r budd ar draws amcanion llesiant. |
| **Cydraddoldeb a dwyieithrwydd**<br>Un o hanfodion y Cwricwlwm i Gymru yw bod Cymraeg yn perthyn i ni i gyd. Gwaith **Dysgu** fydd sicrhau bod gan bob addysgwr gyfle teg i ddatblygu a defnyddio'r iaith, a chyfrannu at weledigaeth Cymraeg 2050. | **Cynnwys ac integreiddio**<br>Mae cynnwys yn pwysleisio cynrychioli cymunedau amrywiol; mae integreiddio yn sicrhau dulliau cydradd a chynhwysol sy'n cefnogi nodau llesiant megis Cymru sy'n fwy cyfartal ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. |

| Cydnabod pwysigrwydd partneriaeth | Cydweithio |
|---|---|
| Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac amrywiol bartneriaid lleol a chenedlaethol i ddod o hyd i atebion sy'n ateb galwadau gwahanol, gan gynnal cynlluniau peilot mewn meysydd cymorth fel y sioeau teithiol Mathemateg rhwng Dysgu ac Estyn i roi cysyniadau ar waith. | Mae cydweithio'n cael ei ddiffinio'n benodol fel gweithio gydag eraill i gyflawni amcanion llesiant |
| **Cynnig i bawb** | **Integreiddio a chynnwys** |
| Os yw pob dysgwr yng Nghymru i gyrraedd eu llawn botensial, mae'n allweddol bod pob addysgwr yn y sector addysg a gynhelir yn cael manteisio ar waith a chefnogaeth **Dysgu**. | Mae integreiddio'n pwysleisio deilliannau i bob rhan o gymdeithas; mae cynnwys yn sicrhau dylunio cynhwysol sy'n cynrychioli pob cymuned. |

## Dysgu'n Cyflawni

Dyma ein hamcanion strategol craidd:

### Amcan 1

Sefydlu **Dysgu** fel darparwr dysgu proffesiynol cenedlaethol effeithiol, cynhwysol ac ymatebol ble mae ein gwaith yn arwain at ddeilliannau i ddysgwyr trwy Gymru yn unol â phedwar pwrpas y Cwricwlwm.

### Amcan 2

Sicrhau mai blaenoriaethau cenedlaethol sydd flaenaf wrth ddylanwadu ar arlwy dysgu proffesiynol rhagorol sy'n ysbrydoli twf personol a datblygiad proffesiynol addysgwr.

## Amcan 3

Sicrhau bod darpariaeth gref o gefnogaeth gyson, gydlynus a safonol ar hyd a lled Cymru fel y gall addysgwyr dyfu fel arweinwyr ar bob cam o'u taith, trwy gymwysterau ffurfiol ac arlwy amrywiol o hyfforddiant a chefnogaeth.

## Themâu Trawsbynciol

Mae'r themâu canlynol wedi'u gwreiddio ym mhob rhan o'n cynllun gweithredol. Maent yn cynrychioli ymrwymiadau craidd a fydd yn saernïo sut rydyn ni'n yn dylunio, yn darparu ac yn gwerthuso ein gwaith – gan sicrhau bod cynhwysiant wrth wraidd pob math o ddysgu proffesiynol:

- **Arferion cynhwysol:** Byddwn yn gwreiddio arferion cynhwysol ar sail dealltwriaeth eang o gynhwysiant. Bydd ein gwaith yn blaenoriaethu creu amgylcheddau dysgu cydradd a chynhwysol, lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at fynd i'r afael ag ymddygiad dysgwyr, y gwaith tuag at Gymru wrth-hiliol, cefnogi dysgwyr LHDTC+ a lleihau effaith tlodi ar ddilyniant a chyrhaeddiad dysgwyr.
- **Hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant:** Byddwn yn hyrwyddo diwylliant sy'n cefnogi llesiant meddyliol, emosiynol a chorfforol cadarnhaol pawb. Yn ogystal â myfyrio ar lesiant yn rhan o'n harlwy Dysgu Proffesiynol, byddwn hefyd yn ystyried effaith ein prosesau, ein cyfathrebu a'n penderfyniadau ar lesiant addysgwyr a'n staff.
- **Anghenion Dysgu Ychwanegol:** Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn cydnabod, yn rhagweld ac yn ymateb i ystod eang o anghenion dysgwyr a staff. Bydd ein gwaith cynllunio a darparu yn dileu rhwystrau, yn cynnig addasiadau priodol, ac yn hyrwyddo mynediad cydradd i ddysgu proffesiynol. Bydd ein harlwy Dysgu Proffesiynol yn galluogi ysgolion i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

## Ein gweithgareddau yn 2026/27

Ar gyfer pob maes blaenoriaeth, caiff cynllun cyflawni manwl ei ddatblygu, gan gynnwys cerrig milltir wedi'u diffinio'n glir, dyraniad adnoddau a dangosyddion perfformiad allweddol i sicrhau bod monitro, atebolrwydd a rheoli perfformiad effeithiol. Bydd y dangosyddion hyn yn cael eu halinio â'n fframwaith sicrhau ansawdd, a'u dilysu a'u monitro gan ein Bwrdd bob chwarter. Byddwn yn cyhoeddi ein cynnydd yn erbyn pob maes gwaith yn ein Hadroddiad Blynyddol.

Bydd gennym hefyd Theori Newid ar gyfer Dysgu, y byddwn yn ei defnyddio i fesur a mynegi effaith ein gwaith. Bydd staff yn defnyddio'r model hwn i gynllunio gwaith, nodi ein heffaith a dangos bod y gweithgareddau a gynllunnir gennym yn rhoi'r cyfle gorau posibl i bob addysgwr ym mhob ysgol a lleoliad addysgol ledled Cymru gymryd rhan mewn dysgu gydol oes drwy ddysgu proffesiynol rhagorol fel y gallant fireinio eu hymarfer, tanio chwilfrydedd a datgloi potensial eu dysgwyr.

Lle cyfeiriwn at Ch1 isod, rydyn ni'n golygu: Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2026); Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2026); Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2026); Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2027).

**AMCAN 1**

Sefydlu **Dysgu** fel darparwr dysgu proffesiynol cenedlaethol effeithiol, cynhwysol ac ymatebol ble mae ein gwaith yn arwain at ddeilliannau i ddysgwyr trwy Gymru yn unol â phedwar pwrpas y Cwricwlwm.

**Pa wahaniaeth a wnaiff hyn:**

- Bydd Dysgu yn dod yn gorff cyhoeddus awdurdodol, hygyrch a chredadwy yr ymddiriedir ynddo ac sy'n dangos effaith ar addysgwyr a dysgwyr.
- Bydd Dysgu yn sefydliad strategol, gyda diwylliant cadarnhaol a chynhwysol a llywodraethu cadarn sy'n darparu gwerth am arian.
- Bydd Dysgu yn datblygu fframwaith ansawdd sy'n sicrhau bod yr holl ddysgu proffesiynol yn safonol, wedi'i seilio ar dystiolaeth ac wedi'i alinio â

blaenoriaethau cenedlaethol, gan ddarparu effaith gyson, fesuradwy a chynaliadwy ar ymarfer proffesiynol a deilliannau dros amser.

- Bydd Dysgu yn darparu dysgu proffesiynol cenedlaethol trwy gyfuniad cytbwys o fodelau darparu cydamserol ac anghydamserol, gan arwain at well mynediad, cyfranogiad a chymhwyso dysgu yn ymarferol.

| Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud | Cwblhau erbyn |
|---|---|
| Bydd gan Dysgu gynllun strategol ar gyfer y cyfnod 2026-2030 (tymor y Senedd nesaf) a gaiff ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chynllun Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweithlu Addysg.<br><br>Bydd Dysgu yn adnewyddu ei gynllun strategol mewn ymateb i'r llythyr cylch gwaith / y Rhaglen Lywodraethu newydd ar ôl etholiad y Senedd. | Mawrth 2026<br><br>Gorffennaf 2026 |
| Bydd Dysgu yn bodloni'r gofynion a nodir yn Nogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru, gan gynnwys datblygu'r cynlluniau corfforaethol a gweithredol. | Mawrth 2026 ac yn barhaus |
| Bydd gan Dysgu weledigaeth glir wedi'i hategu gan werthoedd ac wedi sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda sefydliadau partner allweddol yn genedlaethol ac yn lleol trwy sgwrsio'n rheolaidd, ymgysylltu'n strategol, rhwydweithio ac adeiladu perthnasoedd dibynadwy. | Mawrth 2026 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn cyhoeddi ei Theori Newid | Diwedd Ch1 |
| Bydd gan Dysgu lywodraethiant cadarn ar waith gan gynnwys Bwrdd sy'n gweithredu'n llawn, strwythur pwyllgorau priodol a swyddogaeth weithredol ag adnoddau digonol i allu cyflawni ei gylch gorchwyl. | Diwedd Ch1 |
| Bydd Dysgu yn sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw o fewn y sefydliad ac yn gwreiddio dwyieithrwydd fel ffordd safonol o weithio. Trwy wneud hynny, byddwn yn bodloni Safonau'r Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg. | Diwedd Ch1 ac yn barhaus |

| | |
|---|---|
| Bydd Dysgu yn bodloni ei ofynion cyfreithiol ac ariannol fel cwmni, gan gynnwys sicrhau bod ganddo'r holl bolisïau rheoli angenrheidiol ar waith. | Ch1 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn lansio ei wefan gyntaf | Ch1 |
| Bydd Dysgu yn ceisio llywio (ac, lle y bo'n briodol, herio) meysydd perthnasol o ran datblygiad polisi yng Nghymru. | Ch1 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn creu diwylliant o ymholi lle rydyn ni'n defnyddio model peilota i sbarduno arloesedd, heb ofni defnyddio gwerthuso cadarn i ddysgu o fethiant. | Ch1 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn darparu camau sefydlu ar gyfer Cadeirydd newydd ac aelodau newydd o'r Bwrdd. | Ch1 |
| Bydd Dysgu yn ymgysylltu ag ymarferwyr i lywio'r broses o ddatblygu rhaglenni gwaith penodol ac yn cymryd rôl weithredol mewn Grwpiau Rhanddeiliaid sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr, cynorthwywyr addysgu, ymgynghorwyr gwella a gweithwyr ieuenctid ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod unigolion sy'n gweithio yn y sector yn gwybod am waith Dysgu ac yn gallu dylanwadu ar ein nodau strategol. | Diwedd Ch2 ac yn barhaus |
| Bydd gan Dysgu bresenoldeb ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n amlwg ac yn ymatebol i'r sector. | Mawrth 2026 ac yn barhaus |
| Bydd gan Dysgu drefniadau cadarn ar waith i fonitro effaith ei holl weithgareddau gan gynnwys hunanwerthuso a gwerthuso annibynnol. | Ch2 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn dod yn gyflogwr Cyflog Byw. | Ch3 |
| Bydd Dysgu yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid addysg i ddatblygu a gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd i sicrhau ansawdd dysgu proffesiynol. Bydd hyn yn rhan o fframwaith ansawdd y bydd Dysgu yn ei sefydlu, a fydd yn sicrhau bod yr holl ddysgu proffesiynol yn cael ei lywio gan dystiolaeth a'i alinio â blaenoriaethau cenedlaethol, | Ch3 ac yn barhaus |

| | |
|---|---|
| gan gyflawni effaith gyson, fesuradwy a chynaliadwy ar ymarfer proffesiynol a chanlyniadau dros amser. | |
| Bydd Dysgu yn cyhoeddi adroddiad blynyddol a chyfrifon. | Ch3 |
| Bydd Dysgu yn cyflawni achrediadau diogelwch i sicrhau gwydnwch diogelwch gwybodaeth. | Ch3 |
| Bydd Dysgu yn datblygu rhwydweithiau cadarn ac – wedi iddo gael ei sefydlu fel llais arbenigol a chredadwy ar Ddysgu Proffesiynol yng Nghymru - bydd Dysgu yn ceisio sefydlu partneriaethau a phroffil rhyngwladol i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan feddwl byd-eang – ac yn gallu llywio meddwl byd-eang ei hun - yn y maes hwn sy'n esblygu'n barhaus. | Ch4 |
| Bydd Dysgu yn ymuno â grwpiau a rhwydweithiau sy’n bodoli eisoes, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Cynllun Peilot Ymholi Llywodraeth Cymru, is-grŵp Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar gyfer addysg, fforwm yr Arweinwyr Cyhoeddus, a Dysgu Digidol Cymru. | Mawrth 2026 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn dod yn gyflogwr sy'n ystyriol o drawma, gan sicrhau bod pum egwyddor Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma yn sail i'n gwaith | Ch4 |
| Bydd Dysgu yn cyhoeddi ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf. | Ch4 |

## AMCAN 2

Sicrhau mai blaenoriaethau cenedlaethol sydd flaenaf wrth ddylanwadu ar arlwy dysgu proffesiynol rhagorol sy’n ysbrydoli twf personol a datblygiad proffesiynol addysgwr.

**Pa wahaniaeth a wnaiff hyn:**

- Bydd Dysgu yn datblygu ac yn darparu dysgu proffesiynol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol.

- Bydd Dysgu yn mwyafu mynediad i holl ymarferwyr ysgol Cymru, gan gynnwys athrawon cyflenwi, at ddatblygiad proffesiynol priodol a chyfleoedd dysgu proffesiynol gan sicrhau mynediad cydradd yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Ffurf llwyddiant fydd addysgu sy’n gyson gadarn ac wedi’i seilio ar dystiolaeth, arweinyddiaeth hyderus a myfyriol a dysgu proffesiynol sy’n bwrpasol ac yn ymarferol wedi’i seilio ar flaenoriaethau cenedlaethol clir.
- Mae addysgwyr sy'n ymgysylltu â chynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol **Dysgu** yn dangos gallu proffesiynol cadarnach, sydd i’w weld trwy newidiadau mewn gwybodaeth broffesiynol, hyder, ymarfer ac ymddygiadau arweinyddiaeth sy'n cyd-fynd â'r Safonau Proffesiynol.
- Caiff addysgeg ei gwreiddio ar draws yr holl ddysgu proffesiynol, yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad plant a phobl ifanc, ac addysgeg sy'n briodol i ddatblygiad.
- Bydd ysgolion ledled Cymru yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol pwrpasol, cydweithredol.

| Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud | Cwblhau erbyn |
|---|---|
| Bydd Dysgu yn sicrhau bod ein harlwy dysgu proffesiynol yn alinio â blaenoriaethau allweddol y Cwricwlwm i Gymru ac yn eu symud yn eu blaen, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd a dylunio’r cwricwlwm ac asesu. Mae hyn yn cynnwys manteisio i'r eithaf ar arbenigedd a gaiff ei secondio i Dysgu o bob rhan o'r sector addysg a rheoli’n effeithiol grantiau a drosglwyddir i Dysgu yn y gofod polisi hwn. Ymhlith y grantiau hyn mae:<br>Llythrennedd:<br>• CAL:ON Cymru – Prifysgol Bangor<br>• Caru Darllen Cymru – Cyngor Llyfrau Cymru<br>• Dysgu Darllen a Darllen i Ddysgu - CYDAG<br>• Ein Llais Ni - Prifysgol Bangor | Ch1 ac yn barhaus |

| | |
|---|---|
| Mathemateg a Rhifedd:<br>• Parod am Lwyddiant Cynradd – The Learning Partnership<br>• Rhaglen Cymorth Mathemateg - Prifysgol Abertawe<br>• Parod am Lwyddiant Trosglwyddo – The Learning Partnership<br>• Building number confident schools – National Numeracy | |
| Bydd Dysgu yn ariannu ac yn rheoli'n weithredol grant Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) ar gyfer ysgolion a lleoliadau gofal plant a chwarae gan gynnwys y rhai sy'n darparu addysg feithrin. Bydd y gwaith yn cynnwys datblygu pecyn cymorth i awdurdodau lleol, sioeau teithiol rhanbarthol, cymorth parhaus i arweinwyr a hyrwyddo adnoddau'n barhaus. Bydd y gwaith hefyd yn cynnwys data ychwanegol ac adrodd ar effaith, er mwyn galluogi dealltwriaeth o effaith y rhaglen ar draws y sector addysg. | Ch1 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn datblygu dysgu proffesiynol ar gyfer datblygu ymarfer a myfyrio, gan sicrhau bod addysgeg wedi'i gwreiddio ar draws yr holl ddysgu proffesiynol, yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad plant a phobl ifanc, ac addysgeg sy'n briodol i ddatblygiad. | Ch2 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn ymateb i ganfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen Dosbarth Braf, Meddwl Bywiog i ddatblygu a chyflwyno'r rhaglen, gan sicrhau bod ffocws cadarn ar ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o bwysigrwydd datblygiad plant a phobl ifanc wrth gefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol. | Ch2 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn sicrhau bod ein harlwy Dysgu Proffesiynol wedi'i gynllunio i wreiddio ymhellach ac ychwanegu gwerth at ysgogwyr gwelliant allweddol y system bresennol, gan gynnwys ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y Safonau Proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu, addysgu ac arweinyddiaeth a'r Cwricwlwm i Gymru. | Ch2 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac eraill ar ddarparu dysgu proffesiynol i | Ch2 ac yn barhaus |

| | |
|---|---|
| gefnogi'r gwaith o addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg mewn ymateb i ddyheadau Deddf y Gymraeg ac Addysg (2025). | |
| Bydd Dysgu yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Adnodd a Cymwysterau Cymru i sicrhau bod dysgu proffesiynol priodol ar gael i gefnogi'r gwaith o ddarparu cymwysterau newydd Cymru. | Ch3 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn datblygu ac yn darparu dysgu proffesiynol a chyfleoedd i athrawon uwchradd wella eu gwybodaeth bwnc, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru, er mwyn eu galluogi i addysgu'n hyderus ar draws ystod ehangach o bynciau y tu hwnt i'w pynciau arbenigol, yn enwedig mewn meysydd blaenoriaeth o'r cwricwlwm (mewn partneriaeth â Phrifysgolion a Cydag) | Ch3 |
| Bydd Dysgu yn datblygu ac yn darparu dysgu proffesiynol i ddatblygu addysgeg effeithiol mewn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, i gefnogi'r gwaith o weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) (mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, Cydag a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol) | Ch3 |
| Bydd Dysgu yn cwmpasu ac yn dylunio Dysgu Proffesiynol mewn partneriaeth â Thîm Gwella Addysg Llywodraeth Cymru, er mwyn galluogi gweithredu Canllawiau Gwella Ysgolion drwy gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwella mewn ysgolion (gan gynnwys gwerthuso trwy ymholi cydweithredol) a datblygu arweinyddiaeth system. | Ch3 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn cynyddu argaeledd datblygiad proffesiynol a chyfleoedd dysgu proffesiynol ar Hwb trwy werthuso defnyddioldeb adnoddau Dysgu Proffesiynol sydd eisoes yn bodoli. | Ch3 |
| Bydd Dysgu yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r adnoddau a'r cyfleoedd Dysgu Proffesiynol ar Hwb, gan gynnwys ymhlith athrawon cyflenwi. | Ch3 |

| | |
|---|---|
| Bydd Dysgu yn sicrhau bod cyfleoedd Hwb am Ddysgu Proffesiynol yn hygyrch yn Gymraeg a Saesneg ac yn dilyn arfer gorau fel y nodir yng nghanllaw Adnodd ar greu adnoddau. | Ch3 |
| Bydd Dysgu yn datblygu, yn darparu ac yn sicrhau ansawdd rhaglen dysgu proffesiynol ADY genedlaethol ar gyfer addysgwyr a staff awdurdodau lleol | Ch3 ac yn barhaus |
| Wrth i dechnoleg barhau i esblygu, gan gynnwys dylanwad Deallusrwydd Artiffisial, bydd Dysgu yn datblygu dysgu proffesiynol a chymorth ymarferol i addysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol yn effeithiol i gefnogi addysgu a dysgu | Ch4 |

## AMCAN 3

Sicrhau darpariaeth gref o gefnogaeth gyson, gydlynus a safonol ar hyd a lled Cymru fel y gall addysgwyr dyfu fel arweinwyr ar bob cam o'u taith, trwy gymwysterau ffurfiol ac arlwy amrywiol o hyfforddiant a chefnogaeth.

### Pa wahaniaeth a wnaiff hyn:

- Bydd Dysgu yn darparu cymorth arweinyddiaeth cadarn a chynaliadwy.
- Bydd Dysgu yn gweithio gyda phartneriaid i greu llwybrau dysgu proffesiynol ar gyfer pob addysgwr.
- Bydd Dysgu yn arwain datblygiad galluoedd proffesiynol arweinwyr sydd eisoes yn y system a phobl sy'n dyheu i fod yn arweinwyr mewn ysgolion a gwaith ieuenctid.
- Bydd Dysgu yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, ysgolion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol a phartneriaid i ddarparu ystod gydlynus o ddatblygiad proffesiynol a chyfleoedd dysgu proffesiynol safonol yng Nghymru ar gyfer cynorthwywyr addysgu ac athrawon i ddatblygu ymhellach fel gweithwyr proffesiynol addysg myfyriol, ymholgar a chydweithredol.

- Bydd Dysgu yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Medr, Estyn, Athrofa, Adnodd a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod datblygiad proffesiynol a dysgu proffesiynol yn cael eu harwain gan ymchwil, yn canolbwyntio ar ymarfer ac yn ymatebol i anghenion ymarferwyr ysgol, arweinwyr ac ymgynghorwyr gwella ac yn bodloni'r blaenoriaethau cenedlaethol a nodwyd.
- Ffurf llwyddiant fydd addysgu sy’n gyson gadarn ac wedi’i seilio ar dystiolaeth, arweinyddiaeth hyderus a myfyriol a dysgu proffesiynol sy’n bwrpasol ac yn ymarferol wedi’i seilio ar flaenoriaethau cenedlaethol clir.
- Mae addysgwyr sy'n ymgysylltu â chynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol Dysgu yn dangos gallu proffesiynol cadarnach, sydd i’w weld trwy newidiadau mewn gwybodaeth broffesiynol, hyder, ymarfer ac ymddygiadau arweinyddiaeth sy'n cyd-fynd â'r Safonau Proffesiynol.

| Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud | Cwblhau erbyn |
|---|---|
| Bydd Dysgu yn adolygu'r holl ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli ar gyfer arweinwyr (canol, uwch, gweithredol, ffedereiddiedig, system) i ddatblygu rhaglen gydlynus o gyfleoedd datblygu proffesiynol sy'n amlygu ei hun mewn nifer o ffyrdd gwahanol (gan gydnabod bod pawb yn dysgu’n wahanol). | Ch2 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn darparu rhaglen CPCP Cymru, gan sicrhau bod y rhaglen beilot yn cael ei gwerthuso a'i diwygio yn unol â hynny ar gyfer carfanau yn y dyfodol. | Mawrth 2026 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn ymateb i anghenion arweinyddiaeth y sector gwaith ieuenctid gan weithio mewn partneriaeth â phartneriaid cenedlaethol a lleol perthnasol. | Ch2 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Llwybr Gyrfa Gynnar strwythuredig i gefnogi athrawon yn ystod eu haddysg gychwynnol athrawon (AGA) a'u 3-4 blynedd cyntaf o addysgu. | Ch2 ac yn barhaus |

| | |
|---|---|
| Bydd Dysgu yn adolygu ac yn mireinio'r llwybr dysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr addysgu er mwyn darparu cyfleoedd iddynt ddatblygu arbenigedd mewn cefnogi dysgwyr ag ystod o anghenion. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod cynorthwywyr addysgu yn cael eu cefnogi'n llawn i ymgysylltu â'r Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu (TALP). | Ch2 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn cyllido ac yn goruchwylio'r rhaglenni Meistr a Doethuriaeth Cenedlaethol mewn Addysg | Ch3 ac yn barhaus |
| Bydd Dysgu yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfres o ddosbarthiadau meistr dewisol, wedi'u hysbrydoli gan y cymhwyster Meistr mewn addysg, gan ganolbwyntio ar nifer o feysydd dysgu ar wahân. | Ch4 |

## Nodyn i gloi

Mae addysgu, bod yn addysgwr, yn waith llawn llawenydd ac yn drawsnewidiol a thra bod newid i fod - yn ôl y theori boblogaidd - fod yn Syml, I bawb, yn Annog ac mewn Pryd, yn rhoi SIAP ar bethau, mae **Dysgu** yn awyddus i ychwanegu S arall: Sbort! Mae hynny'n cynnig gwledd o gyfleoedd i ni, cyfle i gyflwyno newid sy'n bywiogi addysg yng Nghymru ac yn rhoi fflach o ragoriaeth a chreadigrwydd i ddysgu proffesiynol.

Mae angen diwylliant dysgu proffesiynol sy’n ffynnu ar Gymru.
Mae cefnogi ac ysgogi addysgwyr o’r pwys cenedlaethol pennaf.

Dyna pam mae **Dysgu** yn awyddus i roi cyfle i bob addysgwr yn ysgolion a lleoliadau addysgiadol Cymru rymuso’n broffesiynol trwy gydol eu gyrfa a hynny trwy ddysgu proffesiynol rhagorol – i fireinio eu hymarfer, symbylu chwilfrydedd a datgloi potensial eu dysgwyr.

Addysgu - a dysgu - sy'n ysbrydoli, dipyn bach mwy bob dydd.

Mae **Dysgu** yn barod i wrando, i arwain ac i wasanaethu trwy anelu at lwyddiant gyda'n gilydd.

## Cefnogi ein gwaith

Rydyn ni’n croesawu unrhyw gyfle i weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol ac uchelgeisiau Dysgu. Os hoffech drafod syniadau neu os hoffech gadw mewn cysylltiad, dyma ein manylion cyswllt: